

Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yng ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd.

Yn bresennol: Peter Dewi Richards(Llywydd); Eirian Wyn; Sally Thomas; Christopher Gillham; Gethin Rhys; Vaughan Salisbury; Martin Spain; Rheinallt Thomas; Meirion Morris; Judith Morris; Irfon Roberts; Noel Davies; Catrin Parry; Helen Jones (yn cofnodi)

Ymddiheuriadau: Aled Edwards; J.P.Ramos; Gareth Morgan Jones; Aled Jones; Alun Tudur

1. Croeso: Croesawodd y Llywydd, Parch Peter Dewi Richards bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig y cyfieithydd Catrin Parry, cydweithiwr gyda Steffan Wiliam i'w chyfarfod cyntaf.

2. Defosiwn: Parch Sally Thomas, Eglwys Unedig Ddiwygiedig oedd yn gyfrifol. Darllenodd adnodau o Eiseia 2: 1-5 a Luc 1: 76 – 79. Dwedodd bod y byd wedi newid cymaint yn ystod y misoedd diwethaf yn wleidyddol ym Mhrydain ac Ewrop. Oherwydd rhyfeloedd roedd pobl angen croeso ac ymgeledd. Cawsom ein galw i gyhoeddi efengyl Crist. Wrth ddathlu'r Nadolig gobeithiodd byddai Duw'n ein bendithio ac yn ein rhwystro o gofio cyflwr y byd a'i broblemau. Heriodd ni i ymestyn at bobloedd daear yn eu hamgylchiadau.

Diolchodd Peter i Sally am ei chyfraniad.

3. Cofnodion 26 Mai 2016: A. Materion yn codi: Derbyniwyd y Cofnodion ag eithrio: Adroddiad o'r Enwadau: A) Bedyddwyr: Parch Mark Thomas fydd Llywydd UBC (Saesneg) yn 2017. B) Eglwys Bresbyteraidd Cymru: Bydd y cyfundeb yn trefnu digwyddiad i gofio am 300 mlwyddiant Wm. Williams. Pantycelyn. Bydd cyfrol Vaughan Roderick am William Williams yn cael ei chyhoeddi yn 2017.

B. **Hyfforddiant:** Holwyd a oedd Parch Aled Jones wedi cysylltu gyda'r enwadau Anghydfurfiol ers y cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i Aled ym mis Mai i drefnu cyfarfod gyda Swyddogion Datblygu ac Hyfforddiant yr enwadau i esbonio eu cynlluniau hyfforddiant. Cytunwyd bod angen Ôl-hyfforddiant ar Weinidogion yng Nghymru. Mynegwyd pryderon nad oedd unrhyw Brifysgol yng Nghymru'n cynnig Hyfforddiant nac yn ei gynnig yn y Gymraeg. Mae pwyllgor enwadaeth dal yn bodoli. Atgoffwyd bu trafodaethau gyda T Padarn – yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Prifathro fod i gysylltu gyda'r Eglwysi Rhyddion i drafod cydweithio yn y dyfodol.

Pwynt gweithredu: Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd i gysylltu gyda Parch Aled Jones i'w atgoffa fod angen cysylltu gyda'r enwadau Anghydfurfiol fel yr awgrymwyd yng nghyfarfod mis Mai 2016.

4. Adroddiad Cytun: Parch Gethin Rhys

1. Mae'r Parch Aled Edwards yn helpu cymunedau i groesawu ffoaduriaid ac mae gwerthfawrogiad i'w arbenigedd yn y pwnc.

2. Parch Aled Edwards yw Cadeirydd Panel Dyngarol Urdd Gobaith Cymru.

3. Grwpiau lleol Cytun – Mae rhai grwpiau yn dal yn fywiog. Does dim grwpiau ffurfiol mewn rhai ardaloedd – capeli/eglwysi'n cau a'r egni o gynnal yr achos yn dirywio. Mae pobl yn mynychu un eglwys mewn pentref/ardal a'r uno wedi digwydd. Dydy ambell gr p ddim am fod yn rhan nac am arddel Cytun yn ffurfiol er bod cydweithio br d o fewn cymunedau a'r grwpiau cydenwadol lleol yn bodoli. Rhoddwyd rhesymau amrywiol, diwinyddol a'r ffaith fod yr eglwys Gatholig yn rhan mewn rhai ardaloedd. Gan fod nifer yr eglwysi wedi lleihau does dim archwaith na strwythur i gydweithio. Mae rhai ardaloedd heb Swyddogion penodol - Cadeirydd/ Ysgrifennydd a Thrysorydd. Mae problem diffyg ymrwymiad yn gwanhau gallu Gethin i siarad dros yr eglwys yn y Cynulliad.

Dwedodd Sally ei bod yn gweithio gyda grwpiau lleol ac yn gofyn am fanylion Swyddogion gan gynnwys enwau Offeiriad/ Gweinidogion. Cynnigir cefnogaeth pe bai'r galw. Mae 74 grwp Cytun yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae 3 wedi cau yn ddiweddar.

Holwyd beth oedd strategaeth Cytun a beth oedd wedi mynd o'i le? Dylai Swyddfa Cytun holi am resymau os oes canghennau wedi cau. Holwyd a oedd Gymanfaoedd/ Undebau wedi rhoi lle i Cytun yn eu cyfarfodydd blynyddol. Mae cynrychiolwyr o'r enwadau ar fwrdd Cytun bellach a dylai cyfarfodydd Gymanfa/Undeb fod yn wahanol yn 2017. Mae angen i'r grwpiau lleol gryfhau a datblygu i fod yn fudiad cryf yn genedlaethol. Mynegwyd anhawster gyda phwyllgorau lleol llawer o fudiadau e.e. Cymorth Cristnogol - i ddenu brwdfrydedd pobl. Soniwyd hefyd bod grwpiau arall wedi datblygu a thyfu fel "Cymru i bawb" yn

Aberystwyth a "Citizens UK" – sy ddim yn grefyddol ond yn agored i bawb leisio'u barn ar bob math o sefyllfaoedd sy'n codi yn wleidyddol.

Bydd presenoldeb Cytun yn parhau ar feysydd digwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae Ynyr Roberts, Swyddog Tystiolaeth a Chyfathrebu yn paratoi at ddiwyddiadau 2017 gan siarad â phersonau lleol o fewn yr ardaloedd.

Pwynt gweithredu: Sally Thomas i ddilyn i fyny datblygiadau parthed pwyllgorau lleol Cytun.

B. Gwaith y Swyddog Polisi.

Nododd Gethin y meysydd yr oedd yn ei gweithio yn ei gylch a rhoddwyd copiau i'r rhai oedd yn bresennol. Nododd bod y meysydd trafod yn gallu newid o fis i fis. Gwerthfawrogwyd manylder Gethin ar ran Cytun a'r Cyngor Eglwysi Rhyddion i roi gwybodaeth ar y we.

5. Cyfansoddiad: Angen rhoi'r cyfan yn ddwyieithog ar wefan Cytun.

Pwynt gweithredu: Y Llywydd a'r ysgrifennydd i sicrhau hyn.

Llythyr: Derbyniwyd llythyr gan Rheinallt Th. ar 3:11:16 oddi wrth Bwyllgor Medalau Gee Gogledd Cymru yn poeni eu bod yn gwobrwyo heb ganiatâd Cyngor Eglwysi Rhyddion Gogledd Cymru. Esboniwyd nad oedd Cyngor Eglwysi yn bodoli yn y Gogledd fel yn y De. Yn 2016 bu newid yn Ysgrifennydd a Llywydd pwyllgor Medalau Gee. Bu cyfarfod i arwisgo'r medalau ym mis Medi. Nodwyd o'r llythyr nad oedd pwyllgor newydd Medalau Gee yn gwybod am fodolaeth Cyngor Eglwysi Rhyddion a doedd dim cyfansoddiad gyda nhw. Y cofnodion olaf a gafwyd oedd yn 2008 ac ystyriwyd ffurfio Cyngor Eglwysi Rhyddion yn y Gogledd eto yn 2012. Ymgais oedd y llythyr i osod trefn ar Gyngor Eglwysi Rhyddion y Gogledd ac i drefnu Medalau Gee i'r dyfodol.

Dwedodd Irfon Roberts bod sefyllfa CERHC fel gr p yn ofid ac na allen nhw gyfiawnhau eu bodolaeth achos bod cymaint o'r pynciau dan ymbarèl Cytun. Yn wreiddiol y materion penodol ganddynt i gynnig arweiniad arno oedd: Dirwest a Chadwraeth y Saboth a hefyd cyflwyno Medal Gee am wasanaeth clodwiw i'r Ysgol Sul. Mae unrhywun a fyddai'n derbyn y Fedal Gee yn ei weld fel anrhydedd. Gwahodwyd cyn llywyddion Cyngor Eglwysi Rhyddion i'r Pwyllgor ond wedi cyfnod maent yn colli diddordeb. Does dim llawer o bobl yn derbyn y Medal Gee yn y de - un yn 2016. Mae'r teilyngdod o hyd yn haeddiannol a chynhelir gwasanaeth yng nghapel y derbynnydd. Gofynnwyd beth yw dyfodol a phwrpas CERhC? Beth oedd gan y Cyngor i'w gynnig? Cytunwyd bod gweithio ar y Cyfansoddiad wedi bod yn brofiad buddiol a bod hyn wedi ail ymrwymo pwrpas y Cyngor.

Holwyd sut oedd yr Eglwysi Rhyddion yn gweld eu hunaniaeth yn parhau? Mynegwyd mai ei phwrpas oedd i fod yn lais i Ymneulltiwyr yng Nghymru ac i wneud datganiadau ar eu rhan. Mae peirianwaith yr Eglwys yng Nghymru'n gryf ac yn cael sylw'r cyhoedd a'r wasg.

Penderfynwyd ymateb i'r llythyr:

Pwynt Gweithredu: 1. Dylai'r Ysgrifennydd Helen Wyn Jones ymgynnull Pwyllgor priodol o gyn llywyddion, cynrychiolwyr yr Enwadau(2/3); cynrychiolwyr (2/3) o unrhyw grwpiau Eglwysi Rhyddion sy'n cyfarfod yn yr ardaloedd yr ydym yn hysbys ohonynt – yn arbennig os oes rhai wedi bod yn gyrru cyfraniad ariannol i'r Trysorydd i ystyried dyfodol adran y Gogledd.
2. Dylai cais am gynrychiolwyr Enwadol yn cael eu gyrru rhag blaen at Y Parchn. Meirion Morris (EBC); Judith Morris (UBC) Geraint Tudur (UAC) a Jenny Hurd (EF).
3. Dylid adfer y drefn o gael Llywydd o'r gwahanol enwadau ar gylch.
4. Buddiol fyddai derbyn copi o Gyfansoddiad C.E.Rh y De.
5. Dylai Rheinallt Th. wahodd Pwyllgor y Gogledd anfon cynrychiolydd i ddod i'r Cyfarfod blynyddol yng Nghaerdydd mis Tachwedd 2017 ac i bresenoli yng nghyfarfodydd wedyn.
6. Ni ddylai aelodau presennol ddewis pwy ddylai fod yn derbyn medalau Gee yn y Dyfodol.

6. Parch Noel Davies – Oblygiadau Brexit ar ein hegwyddorion Cristnogol

Rhoddodd Parch. Noel Davies adroddiad manwl o'r gweithgareddau a'r trafodaethau gyda'r awdurdodau oedd wedi cyfarfod yn dilyn Brexit. Gwerthfawrogwyd ei neges. Cafwyd cyfnod o gwestiynau a sylwadau.

1. Nodwyd na fydd newid yn y cyrff eglwysig a byddai'r eglwysi ym Mhrydain yn dal i fod yn rhan o'r Gymuned Ewropeaidd wedi Brexit. Ni fydd y cyrff cyd-eglwysig yn ein gadael allan. Dylai'r berthynas gryfhau.

2. Nodwyd bod rhaniadau barn am Brexit yn rhannu eglwysi. Dylai'r eglwysi fod yn sensitif i'r gwahanol barn o'u mewn. Mae angen pwysleisio egwyddorion cariad a goddefgarwch.

3. Mae Materion Hawliau dynol wedi cyfarfod yn San Steffan. Penderfynwyd bod yr Eglwysi Rhyddion i ddechrau yn syth ar waith cyd-enwadol. Bydd peirianwaith yr Eglwysi Gwladol sy â llawer mwy o adnoddau a pheiriannau cyhoeddusrwydd yn cael sylw'r Wasg.

Diolchwyd i Parch Noel Davies a gwerthfawrogwyd bod y pwyllgor Materion Cymraeg a'r Cyd-bwyllgor Hawliau dynol yn gwneud eu gwaith yn San Steffan.

Pwynt gweithredu: Cynnigiwyd ein bod yn ysgrifennu trwy Gethin Rhys llythyr at Ysgrifennydd Cymru, Prif Weinidog Cymru a'r Wasg ein gofid am sefyllfa cymunedau a tòn y dadleuon dros ac yn erbyn wedi'r canlyniadau.

Bydd y llythyr i'w ddsbarthu.

7. Adroddiadau

A) Enwadau:

1. Presbyteriaid – Parch Meirion Morris

a) Bu'n mynychu cyfarfodydd a thrafod y weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr, yr Annibynnwyr a'r eglwysi Unedig Ddiwigiedig 3 gwaith. Er y cydweithio lleol mae angen cymorth a chanllawiau i sicrhau llwyddiant.

b) Mae polisi gweithredol o fewn eglwysi, eglwysi a rhanbarthau ac mae Ymddiriedolwyr yn bodoli.

c) Rhenti teg – Dydy pobl lleol ddim bellach yn barod i ysgwyddo cyfrifoldeb i sicrhau hyn.

ch) Mae argyfwng ariannol gan y Presbyteriaid. Mae hwn wedi creu rhagolwg a phwysau cyfreithiol.

d) Enwebwyd Mr Rheinallt Thomas fel Llywydd newydd C.E.Rh.C. Bydd yn cael ei sefydlu yn nghyfarfod mis Mai.

2. Cyngor Eglwysi Rhyddion y De – Parch Irfon Roberts.

a) Mae cyn-lywyddion yn anfon cynrychiolwyr o'r enwadau i'w cyfarfodydd.

b) Cafwyd llythyr haf diwethaf oddi wrth Mr Parkes yn holi am fedal Gee Mr E. Edwards. Ni ddaeth unrhyw wybodaeth i law ac felly tybiwyd mai o'r Gogledd oedd y g r wedi derbyn y fedal.

3) Cynghair Cynulleidfaol – Parch Chris Gillham

a) Bydd cyfarfodydd Prydain yn Neuadd Brangwyn, Abertawe 10fed Mehefin 2017.

b) Bydd gwahoddiad yn dod i aelod o'r Cyngor fynychu.

4. Undeb y Bedyddwyr – Parch Judith Morris

a) Dathlu 150 mlwyddiant ym Mehefin 2017 yn y Llwyfan, Caerfyrddin. "Diwrnod i'r Teulu" gyda seminarau a sesiynau difyr. Bydd y Cymry a'r Saeson yn rhannu'r digwyddiad.

b) Gwaith cenhadol. Mae 3 bachgen yn gweithio i'r enwad yn Llanelli dan gynllun pilot.

5. Eglwys Unedig Ddiwygiedig – Parch Sally Thomas

a) Mae problem prinder Gweinidogion yn y wlad o achos ymddeoliadau. Bydd angen tua 15 erbyn 2020.

b) Mae Gweinidogion a thîmau o bersonau yn weithredol yn cynorthwyo gyda'r cyfnod o newid. Maent yn hyfforddi pobl yn lleol ac mae llawer yn cael ei gynnig yng Nghaerdydd.

c) Yn eciwmenaid - mae Gweinidogion a'u cyd bartneriaid yn cyfarfod yn fuan.

ch) Mae tua 100 o wragedd wedi'u hordeinio.

6. Yr Annibynwyr

a) Adroddiad Ysgrifenedig i'w anfon.

b) Bydd 500 ers geni Martin Luther yn cael ei ddathlu. Bydd taith i'r Almaen yn cael ei drefnu. Bydd yr eglwys Lutheraidd yng Nghaerdydd yn dathlu ar 31 Hydref 2017.

B) Addysg - Mr Vaughan Salisbury

Anfonwyd adroddiad ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Nododd:

1. **Adroddiad Syr Ian Diamond** Medi 2016 am gynllun newydd o ariannu Israddedigion a Myfyrwyr ymchwil yng Nghymru. Cefnogwyd yr Agenda ymchwil yn gryf gan yr Adran Addysg. Enwebwyd Noel Lloyd a'r Parch Meirion Morris i fynd ar Bwyllgor Coleg Cenedlaethol.

2. **Addysg Athrawon Gychwynnol yng Nghymru** – Cyd fynd ag adroddiad Donaldson. Mae Vaughan wedi ymateb i hwn ac wedi anfon copi at Gethin Rhys. Mae'n broses gymleth ac anodd i roi Myfyrwyr mewn ysgolion. Daw cysondeb wrth drefn ac ariannu.

3. **Agenda Digidol** – 4 Maes – Mae hwn yn ychwanegol at wersi Tech. Gwyb. yn ein Hysgolion. Gall greu anhawster i Add. Gref o fewn strwythurau ysgolion. Bydd cyfarfod o CYSAGAU yng Nghaerfyrddin (18/11/16) ac fe fydd rhaid i'r cynrychiolwyr fod yn lais cryf yn y dyfodol. Ni ellid yn gyfreithiol ddileu unrhyw gorff yng Nghymru os na fydd Deddf gwlad wedi ei phasio i ganiatau hynny.

4) Mae'r Parch Hywel Richards yn derbyn e-gylchlythyrau Dysg Llywodraeth Cymru ac e-byst gan Estyn yn rheolaidd oddi wrth Vaughan.

5) **Pwyllgor Addysg yr Eglwysi Rhyddion (Cymru a Lloegr)**. Mynychodd Vaughan gyfarfod yn Llundain ar 19^{eg} Hydref. Rhoddwyd dau gyflwyniad llawn a gwerthfawr gan Patricia Hannam Arolygydd/ Ymgynghorydd Swydd Hampshire a Deborah Weston o Swyddfa Ymchwil NATRE oedd yn canolbwyntio ar Ymgysylltu rhwng yr Eglwysi Rhyddion ag ysgolion yn Lloegr. Rhoddodd Vaughan sylw i ddatblygiadau oedd yn digwydd yng Nghymru yn arbennig adroddiad Syr Ian Diamond.

Diolchwyd i Vaughan am ei waith.

C) Trysorydd - Parch Martin Spain

1. Taliadau - Ni ddaeth cyfraniad o Byddin yr Iachawdwriaeth eleni. Roedd y Gynghrair Cynulleidfaol yn hwyr yn talu.

2. Blwyddyn ariannol – Pasiwyd newid y flwyddyn ariannol i ddechrau o Ionawr i Rhagfyr ac nid o fis Medi i Awst fel sydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn weithredol o Ionawr 2017.

3. ** Ysgrifennodd y Trysorydd 48 awr yn hwyrach am ganiatâd i roi £500 i Cytun fel arwydd o ddiolchgarwch am gyfraniad Sasha i'r Cyngor.

8). U.F.A.

1. Soniodd y Llywydd bod "Cronfa i Weinidogion wedi ymddeol a'i gweddwon" yn bodoli. Pe bai unrhywun yn gwybod am Weinidog neu weddw gweinidog yn dioddef caledwch neu anhawster ariannol i gysylltu er mwyn gwneud cais am gynorthwy.

2. Diolchwyd i'r cyfieithydd Catrin Williams am ei gwaith.

3. Diolchwyd i Helen am drefnu'r cyfarfod a pharatoi'r lluniaeth.

9). Y fendith

Terfynodd y cyfarfod mewn gweddi a offrymwyd gan yr Is-Lywydd Rheinallt Thomas.

Gorffennodd y cyfarfod am 2.50.